# GRŴP LLYWIO PARTNERIAETH BIOAMRYWIAETH CYMRU 12

11 Tachwedd 2010
Bangor

## AGENDA

Cynhelir 12fed Cyfarfod Grŵp Llywio Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru yng Nghanolfan Ymchwil Amgylcheddol Cymru, Bangor (gellir gweld y lleoliad ar fap yma). Byddwn yn dechrau â thaith o amgylch Canolfan Ymchwil Amgylcheddol Cymru am 09:30. Bydd te a choffi ar gael o 10:00 ymlaen.

| AMSER | PAPUR RHIF | TEITL | ARWEINYDD |
|---|---|---|---|
| 09:30 | | **Taith o amgylch y Ganolfan:** Cyflwyniad i Ganolfan Ymchwil Amgylcheddol Cymru | Shaun Russell |
| 10:00 | **Ymgynnull, te/coffi** | | |
| 10:30 | 1 | **Croeso:** Cyflwyniad ac ymddiheuriadau | |
| 10:35 | 2 | **Prif bapur: gweithdy:** Fframwaith yr Amgylchedd Naturiol | Diana Reynolds |
| 12:00 | **CINIO – Dewch â phecyn bwyd os gwelwch yn dda 1 awr** | | |
| 13:00 | 3 | **Prif bapur:** Ariannu Natur mewn Oes o Lymder | Sean Christian |
| 13:20 | 4 | **Prif bapur:** Fframwaith Addysg Forol | Aethne Cooke |
| 13:40 | 5 | **Cyflwyniad:** Grŵp Tacsonomig: Morfeirch brodorol | Frankie Hobro, Sw Môr Môn |
| 13:50 | 6 | **Trafodaeth: Beth allwn ni ei wneud i helpu'r rhywogaethau hyn?** | |
| 14:00 | 7 | **Papurau i'w Nodi**<br>- **A**: Rhywogaethau Estron Goresgynnol<br>- **Atodiad 1**<br>- **B:** Y Diweddaraf am Droseddu yn erbyn Bywyd Gwyllt<br>- **C:** Camau sy'n cael eu cymryd gan Grŵp Swyddogion Bioamrywiaeth Awdurdodau Lleol a Pharciau Cenedlaethol<br>- **D:** Y Diweddaraf gan yr Is-grŵp Bioamrywiaeth a Busnes<br>- **E:** Fframwaith Cysyniadol er mwyn cael Busnesau i Ymwneud â Bioamrywiaeth yng Nghymru<br>- **F:** Natur Cymru<br>- **G**: Creu coetir newydd yng Nghymru<br>- **H:** Sicrhau'r ystyriaeth ddyledus i gynefinoedd a rhywogaethau sydd ar restr adran 42 yn y broses rheoli datblygu<br>- **I**: Academyddion ar Grwpiau Ecosystemau | <br>Bill Somerfield<br><br>Ian Guildford<br><br>Richard May<br><br>Amy Mulkern<br><br>Amy Mulkern<br>Mandy Marsh<br>Michelle van-Velzen<br>Hazel Drewett |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | - **Atodiad 2** | |
| 14:45 | 8 | Adborth gan Bartneriaeth Arfordir a Môr Cymru | I'w gadarnhau |
| 14:55 | 9 | Adborth gan y Pwyllgor Sefydlog | David Parker / Diana Reynolds |
| 15:05 | 10 | Cadarnhau cofnodion a chamau gweithredu o'r cyfarfod diwethaf | |
| 15:15 | 11 | Unrhyw fater arall | |
| 15:25 | 12 | Dyddiad y cyfarfod nesaf | |
| 15:30 | **Te prynhawn a gorffen** | | |

Mae gwasanaeth trên rheolaidd yn cael ei weithredu o Fangor. Gweler www.nationalrail.co.uk am fanylion.

**Caerdydd** – trên yn gadael am: 15.02 neu 16.02
**Aberystwyth** – trên yn gadael am: 15.02 neu 17:04
**Machynlleth** – trên yn gadael am: 15.02 neu 17:04

**GRŴP LLYWIO**
**PARTNERIAETH BIOAMRYWIAETH CYMRU 12**
**PAPUR 01**
**11th Tachwedd 2010**

Bioamrywiaeth Cymru
Biodiversity Wales
PARTNERIAETH BIOAMRYWIAETH CYMRU
WALES BIODIVERSITY PARTNERSHIP

**Teitl: Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru a dogfen 'Cymru Fyw'**

**Lluniwyd gan: Tîm Cymorth Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru**

***Cefndir/Cynnydd***

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf mae rhanddeiliaid, y llywodraeth a'r sector gwirfoddol wedi bod yn gweithio gyda'i gilydd, ac wedi cael cryn dipyn o lwyddiant, yn enwedig yn y sector bioamrywiaeth, sydd wedi darganfod ffyrdd newydd o weithio sy'n sylfaen gref i weithredu agenda gyffredin ar gyfer datblygu cynaliadwy.

Yn dilyn lansio ymgynghoriad cyhoeddus "Cymru Fyw" yng Nghynhadledd Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru (PBC) ym Mangor yn ddiweddar, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi bod yn gweithio gyda sefydliadau partner ac unigolion er mwyn datblygu Fframwaith ar gyfer yr Amgylchedd Naturiol. Mae'r fframwaith newydd hwn yn ceisio sicrhau bod tir a dŵr yn cael eu rheoli mewn modd cynaliadwy ac integredig drwy wneud iechyd hirdymor ecosystemau a'r gwasanaethau a ddarperir ganddynt yn rhan ganolog o'r broses o wneud penderfyniadau.

Mae Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru, Grwpiau'r Cynllun Gofodol ac eraill eisoes wedi cyflawni gwaith i gysylltu manteision i rywogaethau â chamau gweithredu ehangach ar gyfer cynefinoedd a chanolbwyntio ar rwydweithiau o gynefinoedd. Hyd yn hyn, mae gwaith o'r fath wedi canolbwyntio'n bennaf ar y rhannau hynny o ecosystemau sydd dan fygythiad, yn dirywio neu wedi cael eu dynodi. Mae hyn yn wahanol i ddull gweithredu sy'n canolbwyntio'n llwyr ar ecosystemau. Byddai angen i'r dull hwn barhau er mwyn i ymgysylltu lleol penodol allu digwydd ochr yn ochr â chamau gweithredu ar y cyd ar raddfa tirwedd gan y llywodraeth, busnesau ac eraill. Mae sefydlu'r naw grŵp ecosystem newydd a grwpiau cymorth cysylltiedig yn PBC yn fan cychwyn da ond bydd angen i rôl y grwpiau hyn ddatblygu.

Mae rhagor o ddogfennau a gwybodaeth gefndir i'w gweld ar wefan Llywodraeth Cynulliad Cymru - Cymru fyw – fframwaith newydd ar gyfer ein hamgylchedd, ein cefn gwlad a'n moroedd

***Cynllun/Cynigion***

Y dasg nawr yw ceisio defnyddio cryfderau'r Bartneriaeth, a'r ewyllys da tuag ati, i'w gwneud yn gorff gwirioneddol rymus sy'n gallu cyflawni amcanion. Rhan o'r her yw cael y bartneriaeth i ganolbwyntio ar ddull gweithredu sy'n seiliedig ar ecosystemau, a nodi'n gliriach ar beth y dylai PBC ganolbwyntio er mwyn cyflawni'r amcanion. Rhan arall yr her yw datblygu 'model busnes'

cryfach i'r Bartneriaeth, er mwyn iddi allu nodi camau gweithredu clir, dyrannu cyfrifoldebau, yna sicrhau bod y cyflawni'n digwydd 'yn y maes'.

Credwn fod angen i ni eu helpu hwy i'n helpu ni mewn tri maes – cyfreithlondeb (pa awdurdod sydd gan PBC i fynnu camau gweithredu a rhoi cyfarwyddiadau?); cyflawni (sut y gall PBC weithredu, yn uniongyrchol neu drwy ei phartneriaid?) a 'thyniant' (pa mor ddylanwadol y gall PBC fod er mwyn ysgogi rhannau eraill o lywodraeth Cymru a'r sectorau eraill i gyflawni ei hamcanion?)

O ran **cyfreithlondeb**, PBC yw'r corff swyddogol sy'n rhoi cyngor i Lywodraeth Cynulliad Cymru ar faterion bioamrywiaeth. O ganlyniad, mae mewn sefyllfa unigryw i gefnogi dull gweithredu sy'n seiliedig ar ecosystemau. Bydd profiad aelodau'r bartneriaeth a'u gwybodaeth am gydrannau ecosystemau a sut y maent yn gweithio yn hollbwysig er mwyn datblygu dull gweithredu llwyddiannus ar gyfer ecosystemau yng Nghymru. Mae'r rhan fwyaf o'r grwpiau'n cael eu cadeirio gan staff o'r sector cyhoeddus y dylai eu gwaith yn arwain grwpiau o'r fath fod yn rhan greiddiol o'u 'gwaith bob dydd'.

O ran **cyflawni**, bydd angen i unigolion yn y grwpiau ecosystem benderfynu sut y bydd y parthau hynny'n cael eu rheoli yn y dyfodol ar y cyd â chyrff lleol a chenedlaethol sydd â'r pŵer i ddylanwadu neu weithredu'n uniongyrchol. Rydym wedi gweld newid gwraidd a brig yn y ffordd y mae cynlluniau gweithredu bioamrywiaeth wedi cael eu datblygu y tro hwn – gyda chynlluniau'n cael eu derbyn yn gynharach ac ystod ehangach o gyfranogwyr - ond bydd angen i ni greu rhagor o gyfleoedd i sicrhau bod camau gweithredu sy'n ymwneud ag ecosystemau yn dod yn rhan sefydlog o waith y llywodraeth. Fel cam cyntaf y gwaith datblygu hwn byddwn yn edrych i ddechrau ar y dystiolaeth sydd ar gael er mwyn sefydlu cysylltiadau uniongyrchol rhwng cadeiryddion allweddol grwpiau ecosystem a swyddogion polisi perthnasol yn Llywodraeth Cynulliad Cymru gyda'r bwriad o gael holl feysydd polisi Llywodraeth Cynulliad Cymru i gytuno ar gamau perthnasol yn ymwneud ag ecosystemau fel deilliannau creiddiol yn eu rhaglenni polisi. Bydd camau gweithredu y cytunwyd arnynt ar gyfer 2011/12 yn ffurfio elfen allweddol o gyfraniad pob adran at ei dyletswydd fioamrywiaeth dan Ddeddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig 2005.

O ran '**tyniant**' bydd angen i aelodau PBC, yn enwedig y grwpiau ecosystem, sicrhau eu bod yn gallu ymgysylltu'n llwyddiannus â swyddogion polisi cenedlaethol ac arweinwyr ym myd busnes. Yr unig ffordd o ddylanwadu o ddifrif yw drwy siarad iaith y bobl anghyfarwydd, drwy egluro pa mor ddifrifol yw'n sefyllfa, pa mor bwysig yw cyfalaf naturiol a beth yw'r costau hirdymor sy'n gysylltiedig â cholli'r amgylchedd hwn. Yr unig ffordd o ddylanwadu o ddifrif yw drwy wrando a pherswadio pobl eraill i weithredu mewn ffyrdd gwirioneddol ddeallus, hirdymor a chynaliadwy. Nid yw hyn yn ymwneud â "beth rydym yn ei wneud â'r rhannau ychwanegol o'r hyn rydym yn ei wneud"; mae'n ymwneud yn hytrach â "sut rydym yn gwneud popeth rydym yn ei wneud". Fel cam cyntaf y broses o ddatblygu'r sgiliau hyn bydd cadeiryddion grwpiau ecosystem yn cael yr amser, y gefnogaeth a'r wybodaeth sydd ei

hangen arnynt er mwyn datblygu eu sgiliau ymgysylltu hwy a sgiliau ymgysylltu aelodau eu grwpiau.

***Pwyntiau i benderfynu arnynt***

Trafod a chytuno ar y canlynol;

- A yw PBC yn bartneriaeth addas i fod yn asiant craidd ar gyfer cyflawni'r dull gweithredu sy'n seiliedig ar ecosystemau?
- Sut fyddai angen i PBC newid er mwyn ymgymryd â'r rôl hon?
- Pa rannau o Lywodraeth Cynulliad Cymru y mae angen i PBC eu cyrraedd?
- Oes angen i rywun arall ymwneud â'r gwaith er mwyn cyflawni'r amcanion hyn?
- Beth fyddai'n cyfyngu ar rôl PBC?

**GRŴP LLYWIO PARTNERIAETH BIOAMRYWIAETH CYMRU 12**
**PAPUR 02**
**11 Tachwedd 2010**

**Teitl: 'Financing Nature in an age of austerity' –** adroddiad newydd gan Dîm Economeg yr RSPB. Mae'r adroddiad llawn i'w weld yn **http://www.rspb.org.uk/Images/Financingnature_tcm9-262166.pdf**

## *Cefndir*

**Mae ymgyrch yr RSPB, *Llythyr i'r Dyfodol*, yn galw ar lywodraethau** i ystyried iechyd y blaned ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol wrth benderfynu ym mhle i fuddsoddi ac ym mhle i gwtogi gwariant. Hyd yn hyn, mae'r llythyr wedi cael ei arwyddo gan dros chwarter y 55,000 o aelodau sydd gennym yng Nghymru, a chan dros 300,000 ar hyd a lled y Deyrnas Unedig.

Mae gan y Llywodraeth rôl hollbwysig i'w chwarae o hyd yng nghyd-destun ariannu natur, ond mae'n amser da i edrych ar y rôl y gallai'r sectorau anllywodraethol ei chwarae er mwyn ategu buddsoddiad y llywodraeth. Mae'r adroddiad hwn yn edrych ar awgrymiadau ar gyfer ffynonellau cyllid newydd o'r tu allan i'r sector cyhoeddus i helpu i leihau'r diffyg mewn cyllid ar gyfer cadwraeth sydd ar hyn o bryd yn fwy na £275 miliwn y flwyddyn yn y Deyrnas Unedig; **£24 miliwn yng Nghymru (GHK, 2010, 'Costs of the UK Biodiversity Action Plan – update').**

## *Cynllun/Cynigion*

Cynigir bod y Grŵp Llywio'n trafod prif ganfyddiadau'r adroddiad ac yn ystyried a oes modd datblygu'r syniadau ymhellach yng Nghymru a sut y gellid gwneud hynny.

### *Prif ganfyddiadau*

**Credydau cadwraeth**
*Gallai marchnad wrthbwyso bioamrywiaeth gref leihau difrod i'r amgylchedd o ganlyniad i waith datblygu, symleiddio'r system gynllunio a sicrhau mwy o gyllid ar gyfer cadwraeth. Y swm sy'n debygol o fod ar gael (yn y Deyrnas Unedig) yw £53 miliwn y flwyddyn. Ni fyddai ardoll syml ar dai yn dangos faint o fioamrywiaeth sy'n cael ei cholli a'i hennill, ond byddai'n ffordd gyflym a syml o godi arian er mwyn gwarchod natur.*

**Trethi amgylcheddol ar ddefnyddio mawn, gwrtaith a phlaleiddiaid**
*Mae Llywodraeth y DU wedi dweud ei bod yn dymuno cynyddu cyfran y refeniw treth y rhoddir cyfrif amdani drwy drethi amgylcheddol. Gallai trethi mawn, gwrtaith a phlaleiddiaid helpu i fynd i'r afael â difrod i fioamrywiaeth a'r dirywiad mewn adnoddau naturiol, gan gynhyrchu refeniw mawr ei angen. Mae'r arian a godir a'r newid a ddisgwylir mewn ymddygiad yn dibynnu ar nifer o wahanol ffactorau sy'n cael eu hamlinellu yn y bennod hon.* ***I ba raddau y bydd yr ardoll arfaethedig o 5c ar fagiau plastig sydd i'w defnyddio unwaith yn helpu i newid ymddygiad yng Nghymru? A faint o arian newydd fydd yn cael ei greu yn sgil hynny ar gyfer prosiectau amgylcheddol?***

**Arian gan y sector anllywodraethol a chyflawni cadwraeth**
*Mae gan fusnesau a chymdeithas sifil ran allweddol i'w chwarae wrth fynd i'r afael â her bioamrywiaeth. Gall camau arloesol a chreu partneriaethau helpu i godi arian a darparu gwell systemau cadwraeth. Fodd bynnag, mae cyfyngiadau amlwg ar yr hyn y gall y ddau grŵp ei wneud, ac mae hyn yn dangos bod angen i lywodraethau gefnogi'r sector anllywodraethol.*

**Taliadau am wasanaethau ecosystem sy'n cael eu hariannu'n breifat**
*Gall busnesau elwa drwy sefydlu cynlluniau taliadau am wasanaethau ecosystem sy'n cael eu hariannu'n breifat. Mae'r addewid mwyaf i gynlluniau newydd i'w weld ym maes rheoli ansawdd dŵr; y tu allan i'r maes hwn ychydig iawn o botensial sydd i'w weld o hyd.*

Yn gyffredinol, mae'r adroddiad hwn yn dangos yn glir nad oes llawer iawn mwy y gall sectorau anllywodraethol ei wneud ar eu pen eu hunain. Mae hyn oherwydd diffyg gwybodaeth a dealltwriaeth o fanteision bioamrywiaeth a gwasanaethau ecosystem, a diffyg manteision preifat yn y tymor byr sy'n lleihau'r cymhelliant i dalu am gyflenwi gwasanaethau naturiol.

Mae'r penodau hefyd yn dod i'r casgliad cyffredin nad yw marchnadoedd gwirfoddol yn debygol o gynhyrchu llawer iawn o arian ychwanegol.

***Symud Ymlaen***

Bydd angen i fusnesau a chyrff anllywodraethol wneud mwy er mwyn helpu i ariannu a sicrhau systemau gwarchod natur. Fodd bynnag, bydd arnynt angen cefnogaeth llywodraethau'r Deyrnas Unedig. Gallai llywodraethau fabwysiadu nifer o wahanol ddulliau gweithredu er mwyn annog a galluogi camau gweithredu anllywodraethol, megis:

*Datgloi cyllid preifat*

- Paratoi i sefydlu marchnadoedd gwrthbwyso bioamrywiaeth
- Ystyried defnyddio ardoll dai syml i godi arian ar gyfer bioamrywiaeth yn niffyg marchnadoedd gwrthbwyso mwy ffurfiol
- Sefydlu marchnadoedd wedi'u rheoleiddio mewn gwasanaethau ecosystem sy'n annog datblygu taliadau am wasanaethau ecosystem ag arian preifat, neu'n helpu i gyfryngu'r gwaith o ddatblygu a rheoli taliadau am wasanaethau ecosystem preifat rhwng landlordiaid preifat a busnesau
- Gweithredu mathau o drethi gwyrdd er mwyn lleihau ymddygiad negyddol a chodi refeniw, yn enwedig mewn cysylltiad â defnyddio mawn, plaleiddiaid a gwrtaith.

*Gwella llif gwybodaeth a hybu gweithredu ar y cyd er mwyn cyflawni (y "Gymdeithas Fawr")*

- Ymchwilio a phrofi metrigau i fesur bioamrywiaeth a gwasanaethau ecosystem eraill er mwyn cynorthwyo â marchnadoedd ecolabelu, gwrthbwyso a thaliadau am wasanaethau ecosystem.
- Cefnogi ymchwil i fioamrywiaeth a gwasanaethau ecosystem er mwyn cael gwell dealltwriaeth o'r cysylltiad rhwng gwasanaethau a buddiolwyr, yn enwedig busnesau, a rhoi cyhoeddusrwydd i fanteision buddsoddi mewn gwasanaethau ecosystem.

- Annog cydweithrediad rhwng cymdeithas sifil, busnes a'r llywodraeth, er mwyn mynd i'r afael â'r diffygion yng nghyd-destun sefydlu marchnadoedd ar gyfer bioamrywiaeth a gwasanaethau ecosystem.

**Hyd yn oed pe bai pob un o'r dewisiadau hyn yn cael ei weithredu, mae'n anodd dweud a fydd yn ddigon i sicrhau bod dyheadau gwyrdd y llywodraeth yn cael eu gwireddu. Un peth sy'n sicr: ni allwn fforddio gwneud dim.**

## Camau Gofynnol

Bod y grŵp yn ystyried prif ganfyddiadau'r adroddiad ac yn ystyried a oes modd datblygu unrhyw syniadau ymhellach yng Nghymru a sut y gellid gwneud hynny.

**GRŴP LLYWIO PARTNERIAETH BIOAMRYWIAETH CYMRU 12**
**PAPUR 03**
**11th Tachwedd 2010**

**Teitl: Meysydd llafur TGAU/TAG Bioleg a Gwyddoniaeth**

## *Cefndir*

Yn 2008, cyflwynwyd cwricwlwm diwygiedig ar gyfer dysgwyr 3-19 oed yng Nghymru. Yn ogystal â sicrhau bod datblygu sgiliau (h.y. Meddwl, Cyfathrebu, TGCh a Rhif) yn cael ei wau drwy'r profiad o ddysgu, mae'r cwricwlwm newydd yn hyrwyddo'r Cwricwlwm Cymreig[1] ac Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang.[2]

O edrych ar y cwricwlwm diwygiedig (gan chwilio yn wreiddiol am gyfleoedd i ddefnyddio'r amgylchedd morol yn y dosbarth, ac mewn lleoliadau eraill), gwelwyd nifer o gyfleoedd i ddefnyddio'r amgylchedd naturiol yn gyffredinol (yn y Cyfnod Sylfaen, yng Nghyfnodau Allweddol 2-3 ac ar lefel TGAU/TAG). (Nid yw'r holl fanylion wedi'u darparu yma).

Un agwedd arbennig o ddiddorol yw'r meysydd llafur ar gyfer Gwyddoniaeth a Bioleg ar lefel TGAU a TAG. Mae agweddau ar y maes llafur sy'n amlwg yn ymwneud â materion biolegol ac ecolegol pur, ond mae agweddau ychwanegol sydd â chyd-destun llawer ehangach, e.e. gwerthoedd cymdeithas a'r cysyniad o gynaliadwyedd; rheoli'r amgylchedd naturiol a gwneud penderfyniadau; pwysigrwydd tystiolaeth wrth wneud penderfyniadau; rheoli rhywogaethau estron; a newid yn yr hinsawdd (gweler y detholiad isod).

Mae ymgynghoriad Cymru Fyw yn nodi mai un o'r prif heriau yr ydym wedi methu â'i hwynebu hyd yn hyn yw mabwysiadu dull gweithredu cwbl integredig o reoli'r amgylchedd, un sy'n adlewyrchu cymhlethdod systemau amgylcheddol, sut y mae'r amgylchedd yn cael ei werthfawrogi, newid yn yr hinsawdd a chyfyngiadau capasiti naturiol. Mae'n briodol bod y materion hollbwysig hyn yn rhan o'r meysydd llafur ar gyfer dysgwyr sy'n dilyn cyrsiau TGAU a TAG yng Nghymru.[3]

***Detholiad o Faes Llafur diwygiedig TAG Bioleg ar gyfer 2010 ymlaen:***

- *Ecsploetio amaethyddol. Gwrthdaro rhwng cynhyrchu a chadwraeth a ffyrdd posibl o ddatrys gwrthdaro o'r fath, gan gyfeirio at:*

---

[1] Dylai pob pwnc fod â dimensiwn Cymreig, er mwyn rhoi cyfle i ddysgwyr ddysgu am nodweddion diwylliannol, **amgylcheddol**, hanesyddol ac ieithyddol Cymru.
[2] Nod sylfaenol Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang yw dangos i ddysgwyr bod eu penderfyniadau a'u dewisiadau ynglŷn â ffordd o fyw yn cael effaith ar bobl a lleoedd ym mhob cwr o'r byd.
[3] Mae 50 y cant o ysgolion Cymru'n astudio ar gyfer arholiadau TGAU a TAG Cyd-bwyllgor Addysg Cymru (sylw personol gan aelod o staff CBAC)

*coedwigoedd: rhesymau dros ddinistrio coedwigoedd ac ar ba raddfa y gwneir hynny, canlyniadau, coedwigoedd a reolir, ecodwristiaeth. Coetiroedd brodorol a bioamrywiaeth.*

*cefnforoedd: problemau gorbysgota ac ymdrechion i'w reoli, gan gyfeirio at egwyddor cwotâu, rhanbarthau gwaharddedig a chyfyngu ar faint tyllau'r rhwydi, dewisiadau pobl. Ffermio pysgod a materion cysylltiedig.*

- *Mae cynhesu byd-eang a newid hinsawdd yn effeithio ar ddosbarthiad rhywogaethau ac maent yn achosion posibl dros ddiflaniad rhai rhywogaethau. Yr angen posibl am newidiadau mewn dulliau ffermio megis tyfu cnydau sy'n gwrthsefyll sychder.*

- *Bodau dynol yn gosod pwysau cynyddol ar yr amgylchedd. Yr angen i sicrhau cynaliadwyedd drwy newidiadau mewn agweddau dynol a dewisiadau gwybodus. Yr angen i seilio penderfyniadau gwleidyddol ar wybodaeth sy'n seiliedig ar egwyddorion gwyddonol pendant. Monitro amgylcheddol a'r angen i ddarparu data sy'n ddibynadwy a dilys. Materion sy'n ymwneud â chasglu data; y posibilrwydd y ceir gwrthdaro rhwng tystiolaeth a dehongliad. Cydnabod y natur betrus bosibl a geir gyda chasgliadau.*

***Detholiad o Faes Llafur diwygiedig TGAU Gwyddoniaeth ar gyfer 2010 ymlaen:***

- *trafod y ffactorau sy'n berthnasol i'r penderfyniadau ynghylch y mathau o orsafoedd trydan a adeiledir, gan gynnwys costau comisiynu, y mathau o ffynonellau egni, costau tanwydd a ffactorau amgylcheddol yn ogystal â safbwyntiau personol nad oes sail wyddonol iddynt.*
- *bod yn ymwybodol o'r prosesau cynllunio a ddilynir wrth ddatblygu gorsafoedd trydan sy'n seiliedig ar adnoddau adnewyddadwy, e.e. ffermydd gwynt a thonnau.*
- *gan ddefnyddio data/TGCh ymchwilio i weld sut y mae poblogaeth ddynol y Ddaear wedi newid dros gyfnod a deall bod effeithiau gweithgaredd dynol ar yr amgylchedd wedi newid hefyd.*
- *gwerthfawrogi'r angen i gasglu gwybodaeth wyddonol fanwl, ddibynadwy er mwyn asesu'r newidiadau mewn mathau a niferoedd o rywogaethau a sut y defnyddir gwybodaeth megis Asesiadau o'r Effaith Amgylcheddol cyn mynd ymlaen i adeiladu datblygiadau newydd.*
- *archwilio gwybodaeth am y pethau sy'n dinistrio cynefinoedd a lleihad mewn bioamrywiaeth. Asesu'r angen i gydbwyso anghenion am fwyd ac agweddau pobl tuag at ddatblygiad economaidd ac anghenion bywyd gwyllt.*
- *archwilio gwybodaeth ynglŷn â defnyddio cyfryngau rheoli biolegol a chyflwyno rhywogaethau estron a'u heffaith ar fywyd gwyllt lleol. Deall y problemau sy'n gysylltiedig â defnyddio cyfryngau rheoli biolegol a sut y mae'r agwedd at ddefnyddio'r dull rheoli hwn wedi newid.*
- *trafod y materion sy'n ymwneud â chynnal bioamrywiaeth ac ymchwilio i ffyrdd o gadw bioamrywiaeth a rhywogaethau sydd mewn perygl, gan gynnwys rôl y gwahanol asiantaethau a chyrff cyhoeddus.*

## *Pwyntiau ar gyfer Camau Gweithredu*

Trafod sut y gall Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru a'i haelodau gefnogi'r meysydd dysgu hyn, ac ystyried y canlynol:

- Lle mae deunydd perthnasol yn bodoli'n barod (mae rhywfaint o ddeunydd rhagorol yn bodoli'n barod), a yw'n cael ei hyrwyddo ac a yw ar gael yn rhwydd i athrawon? Mae Grid Cenedlaethol ar gyfer Dysgu Cymru (GCaD Cymru)[4] yn cael ei reoli gan CBAC ar ran Llywodraeth Cynulliad Cymru. Rhoddwyd cylch gwaith ehangach i GCaD Cymru yn

[4] http://www.ngfl-cymru.org.uk/index-new.htm

2007, sef datblygu a chynnal adnoddau ategol sy'n berthnasol i'r cwricwlwm y gall athrawon eu llwytho i lawr o'r wefan.

- Ymgynghorwyd ag athrawon yn ddiweddar ynglŷn â gwneud mwy o ddefnydd o'r amgylchedd morol mewn ysgolion, a nodwyd bod athrawon a dysgwyr yn elwa o gael 'arbenigwyr' yn dod i'r dosbarth i siarad am bwnc penodol.

- Sut mae dal a chofnodi gwybodaeth a phrofiad yr aelodau er mwyn ychwanegu dimensiwn Cymreig at y dysgu hwn?

**GRŴP LLYWIO PARTNERIAETH BIOAMRYWIAETH CYMRU 12**
**PAPUR I'W NODI A**
**11th Tachwedd 2010**

**Teitl – Y wybodaeth ddiweddaraf am rywogaethau estron goresgynnol**

***Cefndir/Cynnydd***

Cyfarfu Grŵp Rhywogaethau Estron Goresgynnol Cymru am yr 11$^{eg}$ tro ar 30 Medi 2010 yn y Drenewydd.

***Cynllun/Cynigion***

- Mae'r ymgyrch planhigion dyfrol estron goresgynnol, 'Mynd at Wraidd y Mater', wedi cael ei hail-lansio yr hydref hwn, a'r brif thema yw 'compostio gyda gofal'. Cliciwch ar y ddolen gyswllt isod i gael mwy o fanylion: http://wales.gov.uk/topics/environmentcountryside/consmanagement/conservationbiodiversity/plantwise/?skip=1&lang=cy&ts=4
- Bydd cynllun wrth gefn yn cael ei drafod yng nghyfarfod nesaf y Grŵp Rhywogaethau Estron Goresgynnol ym mis Rhagfyr er mwyn bod yn barod rhag ofn i berdys *Dikerogammarus villosus* gael eu gweld yn nyfroedd Cymru.
- Mae prosiect sy'n cael ei arwain gan y Cyngor Cefn Gwlad i gael gwared ar *Didemnum vexillum* o'r marina yng Nghaergybi'n mynd yn ei flaen. Roedd hwyliau da ar bawb yn Awst/Medi gan ei bod yn ymddangos bod yr organedd bron â chael ei ddileu o'r marina. Yn anffodus, nid felly y bu, ac er y siom o weld yr organedd yn ailymddangos yr hydref hwn bydd y prosiect dileu'n parhau yn unol â'r cynlluniau.
- Mae'r adroddiadau cynnar yn awgrymu bod prosiect arweiniol Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru i gael gwared ar lyffantod *Xenopus laevis* wedi bod yn llwyddiannus. Efallai mai'r gaeaf caled a gawsom y llynedd sy'n rhannol gyfrifol am hyn, ond mae nifer y creaduriaid sydd wedi cael eu dal eleni'n isel iawn ar hyn o bryd.
- Mae gwaith yn dal i fynd rhagddo â nifer o rywogaethau fel Jac y Neidiwr, Efwr Enfawr, Rhododendron a Chlymog Japan.
- Mae pob asiantaeth sy'n ymwneud â rhywogaethau estron goresgynnol yn bwydo'r manylion i'r grŵp Gorchwyl a Gorffen ac yn diweddaru'r archwiliad o'r camau gweithredu sy'n ymwneud â rhywogaethau estron goresgynnol (Atodiad 1) yn rheolaidd.

**Atodiad I – Archwiliad o'r Camau Gweithredu sy'n ymwneud â Rhywogaethau Estron Goresgynnol**

***Pwyntiau i Benderfynu arnynt***

- Gofynnir i holl aelodau Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru nodi'r pwyntiau uchod.

**GRŴP LLYWIO PARTNERIAETH BIOAMRYWIAETH CYMRU 12**
**PAPUR I'W NODI B**
**11th Tachwedd 2010**

**Teitl: Y Diweddaraf am Droseddau yn erbyn Bywyd Gwyllt**

**Lluniwyd gan: Y Rhingyll Ian Guildford, Heddlu De Cymru/Cyngor Cefn Gwlad Cymru**

***Cefndir/Cynnydd***

Roedd Jenny Wedge, cydgysylltydd Swyddogion Troseddau yn erbyn Bywyd Gwyllt Heddlu Dyfed Powys, yn ymddeol ym Medi 2010. Mae dyletswyddau'r swydd yn cael eu cyflawni ar hyn o bryd gan y Prif Arolygydd Chris Curtis nes bydd trefniadau eraill wedi cael eu gwneud.

Mae'r adolygiad o atal ac ymchwilio i droseddau yn erbyn bywyd gwyllt wedi cael ei gwblhau erbyn hyn, a chafodd ei gyflwyno i'r Gweinidog yn y Cynulliad, sef Jane Davidson, ar 1 Medi 2010. Un o argymhellion yr adroddiad hwn yw ffurfio 'Gweithgor Gorfodi' a fydd yn dod dan adain Grŵp Llywio Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru. Bydd y gweithgor hwn yn cael ei gadeirio gan y Prif Uwcharolygydd Gwyn Thomas o Heddlu Dyfed Powys. Mae'r gwaith o anfon gwahoddiadau a dewis aelodau'r gweithgor hwn yn mynd rhagddo ar hyn o bryd.

Mae Swyddog Gwent, y Cwnstabl Robert Maddocks, wedi cael ei secondio i'r 'Prosiect Tirweddau Anghofiedig' ym Mlaenafon, Gwent. Nid troseddau yn erbyn bywyd gwyllt yw cylch gwaith y swydd, ond bydd llawer o'r materion y rhoddir sylw iddynt yn gysylltiedig â throseddau yn erbyn bywyd gwyllt a'r amgylchedd.

Cynhelir seminar yn ymdrin â throseddau yn erbyn bywyd gwyllt yng Nghymru yn gynnar yn 2011. Mae'r seminar hon wedi'i hanelu at Swyddogion Troseddau yn erbyn Bywyd Gwyllt yr Heddlu a Gwasanaeth Erlyn y Goron.

Mae'r adroddiad am y modd y mae Heddlu De Cymru'n ymdrin â throseddau yn erbyn bywyd gwyllt a'r amgylchedd wedi cael ei gwblhau a'i gyflwyno erbyn hyn.

Yng nghynhadledd flynyddol Gorfodwyr Cyfraith Troseddau yn erbyn Bywyd Gwyllt (cynhadledd rhif 22) a gynhaliwyd yn Cheltenham yn ddiweddar, dyfarnwyd yr ail wobr yng nghategori Gwobr Gorfodwr Cyfraith Bywyd Gwyllt y Flwyddyn 2010 i'r Rhingyll Rob Taylor o Heddlu Gogledd Cymru.

Yn Awst 2010 dedfrydwyd Jeffrey Lendrum o Swydd Northamton i 30 mis o garchar ar ôl cael ei ddal ym Maes Awyr Birmingham ym Mai 2010 yn ceisio smyglo 14 o Wyau Hebog Tramor o Brydain i Dubai. Cyfaddefodd mewn

cyfweliad ei fod wedi cymryd yr wyau o nythod yn Ne Cymru. Llwyddwyd i ddeor 11 o'r wyau. Gosodwyd saith o'r adar mewn nythod yn yr Alban a chafodd y 4 arall eu dysgu i fyw a hela fel adar gwyllt.

Ar 20 Medi 2010 ymddangosodd perchnogion yr Anifeilfa yn y Borth, ger Aberystwyth yn Llys Ynadon Aberystwyth a phledio'n euog i chwe throsedd dan Reoliadau Rheoli Masnachu mewn Rhywogaethau sydd mewn Perygl (Gorfodi) 1997. Roedd y troseddau hyn yn ymwneud ag arddangos a gwerthu anifeiliaid amrywiol heb y trwyddedau priodol sy'n ofynnol dan y ddeddf. Cafodd un perchennog ddirwy o £1202.50, a chafodd y llall ddirwy o £415, a gwnaethpwyd gorchymyn fforffedu ar gyfer yr anifeiliaid a ganlyn – llewpard, dau lyncs, dau lemwr a dau grwban *Testudo graeca*.

***Cynllun/Cynigion***

***Y Camau Gofynnol***

- Creu tîm gorchwyl a gorffen i gyflawni'r cam nesaf DO/NADDO
- Cadarnhau y gallwn barhau fel y nodir uchod DO/NADDO
- Gofyn i bob un o aelodau Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru roi sylwadau ar fformat yr adroddiad DO/NADDO

**GRŴP LLYWIO PARTNERIAETH BIOAMRYWIAETH CYMRU 12**
**PAPUR I'W NODI C**
**11th Tachwedd 2010**

**Teitl: Camau sy'n cael eu cymryd gan grwpiau swyddogion bioamrywiaeth awdurdodau lleol a pharciau cenedlaethol**

**Lluniwyd gan: Grwpiau swyddogion bioamrywiaeth awdurdodau lleol a pharciau cenedlaethol**

## *Cefndir/Cynnydd*

Mae swyddogion bioamrywiaeth awdurdodau lleol a pharciau cenedlaethol o Dde a Gogledd Cymru'n cynnal cyfarfodydd ardal rheolaidd i drafod materion sydd o ddiddordeb i bawb a symud ymlaen â mentrau rhanbarthol a mentrau ar y cyd. Mae'r papur hwn yn sôn am gyfres o brosiectau sy'n cael eu cynnal ar hyn o bryd ac yn tynnu sylw at waith newydd i'w ystyried yn y dyfodol.

- Yn ddiweddar, hysbyswyd Grŵp Llywio PBC11 bod angen canllawiau ar gyfer adolygu a mabwysiadu cynlluniau gweithredu lleol (Cam Gweithredu 51). Yn dilyn hynny, mae canllawiau drafft yn cael eu paratoi er mwyn hybu'r broses o adolygu cynlluniau gweithredu lleol a'u hail-fabwysiadu yn dilyn hynny.

- Gofynnwyd i swyddogion Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol ddarparu ymateb i Fframwaith yr Amgylchedd Naturiol (FfAN) fel rhan o'r broses ymgynghori. Bydd yr ymateb yn ystyried beth yw'r ffordd orau o gyflawni cynlluniau gweithredu bioamrywiaeth lleol a gwaith partneriaethau bioamrywiaeth lleol drwy'r fframwaith newydd.

  Cyfarfu swyddogion Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol o Dde Cymru ym mis Hydref a chafwyd trafodaeth fer ar yr ymgynghoriad ar y FfAN. Teimlid y byddai o fudd i'r grŵp gael gweithdy ar y fframwaith cyn darparu ymateb ffurfiol. Cynhaliodd swyddogion Gogledd Cymru gyfarfod yn niwedd Hydref a byddant yn darparu adborth o'r cyfarfod hwnnw.

- Cyflwynodd Pippa Rayner o'r Ymddiriedolaeth Gwarchod Cacwn wybodaeth i Grŵp Llywio PBC8 ynglŷn â statws cacwn yng Nghymru gan amlinellu gwaith a fyddai'n cael ei wneud yn y dyfodol er mwyn gwarchod y gardwenynen feinlais.

  Yn dilyn cyfres o gamau gweithredu yn y cyfarfod hwn a chysylltu â chynigion ar gyfer prosiect mentora Hymenoptera (Grŵp Llywio PBC10, Papur i'w Nodi B) cyfarfu swyddogion Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol i ddysgu sgiliau adnabod y gardwenynen feinlais. Mae swyddogion yn cael eu hannog yn awr i chwilio am boblogaethau o'r rhywogaeth yn eu siroedd eu hunain er mwyn gwella data am ddosbarthiad a darparu gwybodaeth ar gyfer gwaith cadwraethol yn y dyfodol.

***Cynllun/Cynigion***

Mae swyddogion Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol hefyd yn gwneud cynnydd â nifer o brosiectau rhanbarthol eraill y byddai'r grwpiau'n hoffi i'r Grŵp Llywio fod yn ymwybodol ohonynt:

- Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae digwyddiadau rhanbarthol wedi cael eu cynnal yn Ne a Gogledd Cymru. Eleni, daeth gwirfoddolwyr o bob cwr o'r Gogledd i ddigwyddiad *Bioblitz* ym Mharc Gwepra a bu holl swyddogion Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol y rhanbarth yn cymryd rhan. Mae'r digwyddiadau eraill tebyg sydd wedi cael eu cynnal yn cynnwys '*Botanical Beat*' yng Ngherddi Botaneg Treborth a stondin Gŵyl Coed Cymru.
  Gan adeiladu ar y profiadau hyn a phrofiadau blynyddoedd blaenorol yn ystod Wythnos Bioamrywiaeth Cymru, cysylltir â'r Is-grŵp Cyfathrebu i ofyn a fyddai'n bosibl iddo ystyried 'sioe deithiol' ranbarthol ar gyfer 2011. Y syniad yw y gallai un sioe deithiol fynd o amgylch nifer o leoliadau, fel canolfannau siopa, y stryd fawr, a chanolfannau gerddi mewn nifer o wahanol ardaloedd Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol i ddal sylw cynulleidfa newydd.
- Mae Prosiect Garddio Bywyd Gwyllt Cymru'n ceisio codi ymwybyddiaeth a gwobrwyo camau gweithredu ar gyfer bioamrywiaeth y mae aelodau o'r cyhoedd, ysgolion a grwpiau cymunedol yn eu cyflawni yn eu gerddi eu hunain. Mae'r prosiect wedi ehangu yn awr i gynnwys pob rhan o Ogledd Cymru ac mae'n cael ei gefnogi gan ddau swyddog rhanbarthol. Mae cyllid yn dal yn broblem. Dim ond tan fis Mawrth 2011 y mae swydd rheolwr y prosiect yn ddiogel.
- Mae swyddogion yn darparu argymhellion i'r Is-grŵp Polisi ar y ddeddfwriaeth a'r polisïau sydd angen eu hadolygu yn eu barn hwy. Mae'r argymhellion hyn yn deillio o brofiad o weithio yn y sector ac maent yn cydnabod anghenion tebygol Fframwaith yr Amgylchedd Naturiol.
- Mae'r prosiect Misglod Perlog Dŵr Croyw yn dal i gynnal arolygon ledled Cymru tra mae'r gwaith o fagu cregyn gleision/misglod mewn caethiwed yn neorfeydd Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru yn profi rhywfaint o lwyddiant. Gobeithir trosglwyddo'r cregyn gleision hyn yn ôl i'r gwyllt yn y dyfodol.
- Mae Fforwm Rhywogaethau Estron Goresgynnol Gogledd Cymru'n cyfarfod yn rheolaidd i gyflawni gwaith grŵp Rhywogaethau Estron Goresgynnol Cymru ar lefel ranbarthol. Mae wedi ysgrifennu asesiadau risg ar gyfer rhywogaethau problemus sydd wedi'u nodi fel blaenoriaeth ac mae'n cydgysylltu gwaith rhagweithiol ar lawr gwlad.
- Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot yn dyfarnu gwobr flynyddol i swyddogion cynllunio. Mae'r wobr hon yn cydnabod y swyddogion hynny sydd wedi gwneud y cyfraniad mwyaf i fioamrywiaeth drwy eu gwaith a thrwy'r broses rheoli datblygu. Bwriedir cyflwyno adroddiad ar y cynllun hwn mewn cyfarfod o Grŵp Llywio PBC yn y dyfodol.

***Y Camau Gofynnol***

- Bod y Grŵp Llywio'n nodi ac yn cymeradwyo gwaith y grwpiau swyddogion Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol.

DO/NADDO

**GRŴP LLYWIO PARTNERIAETH BIOAMRYWIAETH CYMRU 12**
**PAPUR I'W NODI D**
**11th Tachwedd 2010**

**Teitl: Y wybodaeth ddiweddaraf gan yr Is-grŵp Busnes a Bioamrywiaeth**

**Lluniwyd gan: Is-grŵp Busnes a Bioamrywiaeth Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru**

### *Cefndir/Cynnydd*

Mae'r is-grŵp busnes a bioamrywiaeth wedi bod yn gweithio ar nifer o dasgau i geisio cael sector busnes Cymru i ymwneud â materion bioamrywiaeth. Mae'r manylion llawn i'w gweld yng nghofnodion ein cyfarfodydd, ar wefan Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru neu drwy gysylltu ag ysgrifenyddiaeth y Bartneriaeth.

Mae Croeso Cymru wedi ymuno â'r is-grŵp yn ddiweddar. O ganlyniad, mae partneriaid y Bartneriaeth wedi gallu darparu cefnogaeth a chyngor i Groeso Cymru ac rydym yn gobeithio y bydd hyn yn parhau yn y dyfodol. Yr RSPB yw cynrychiolydd y Bartneriaeth yn y fforwm Twristiaeth Gynaliadwy. Mae'r diwydiant ymwelwyr yn hanfodol i economi Cymru; mae ganddo rôl i'w chwarae er mwyn gwella bioamrywiaeth a gwerthu gwerth amgylchedd naturiol cyfoethog Cymru yng Nghymru a thu hwnt.

Rhan fusnes gwefan Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru: mae'r is-grŵp yn falch o'r gwaith sydd wedi cael ei wneud y llynedd ar wefan y Bartneriaeth, yn enwedig y dolenni cyswllt sy'n arwain at astudiaethau achos a'r adnoddau ar gyfer busnesau sy'n ceisio ymwneud â materion bioamrywiaeth. Mae'r astudiaethau achos sydd wedi'u cyflwyno hyd yn hyn yn gyfle da i weld y ffactorau dylanwadu a'r canlyniadau cadarnhaol i fusnesau sydd wedi ymwneud â gwella bioamrywiaeth.

Yn olaf, mae proses Fframwaith yr Amgylchedd Naturiol wedi rhoi cyfle newydd i ni gydnabod rôl bioamrywiaeth yn y cyd-destun economaidd ehangach a byddwn yn ceisio bwydo i mewn i'r ffrwd gwaith, Cymru Fyw. Yn fwyaf arbennig, byddwn yn ceisio egluro rôl Fframwaith yr Amgylchedd Naturiol, is-grŵp Busnes a Bioamrywiaeth Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru ac aelodau'r Bartneriaeth yn ystod y misoedd nesaf, gan ddechrau â chyfarfod ar y cyd yn niwedd Tachwedd.

***Cynllun/Cynigion***

***Y Camau Gofynnol***

- Gofyn: i holl aelodau'r Bartneriaeth sy'n darparu gwasanaethau i fusnesau ac sy'n dymuno iddynt gael eu hyrwyddo drwy'r porth anfon dolen gyswllt ar gyfer y rhan o'u gwefan sy'n darparu'r wybodaeth honno am eu gwasanaethau busnes i'r Bartneriaeth. DO/NADDO

- Gofyn: i holl aelodau'r Bartneriaeth sydd ag astudiaeth achos yn dangos sut mae eu sefydliad wedi gweithio â busnes penodol i'w helpu i fynd i'r afael â materion bioamrywiaeth anfon yr astudiaeth achos i ysgrifenyddiaeth y Bartneriaeth er mwyn ei rhoi ar y wefan. DO/NADDO

**GRŴP LLYWIO PARTNERIAETH BIOAMRYWIAETH CYMRU 12**
**PAPUR I'W NODI E**
**11th Tachwedd 2010**

**Teitl: Fframwaith Cysyniadol er mwyn cael Busnesau i Ymwneud â Bioamrywiaeth yng Nghymru**

**Lluniwyd gan: Is-grŵp Busnes a Bioamrywiaeth Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru**

## *Cefndir/Cynnydd*

Mae byd busnes wedi bod yn teimlo ei bod yn anodd iddynt ymwneud â bioamrywiaeth, a hynny oherwydd nifer o fethiannau – methiannau sy'n ymwneud â'r farchnad, gwybodaeth a rheoleiddwyr. Mae'r papur hwn yn ceisio amlinellu'r methiannau hynny, ac awgrymu sut y gallai Fframwaith yr Amgylchedd Naturiol (FfAN) ddatrys rhai o'r problemau a wynebir gan aelodau Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru (PBC) a'r cwmnïau rydym yn ceisio ymgysylltu â hwy. Mae'r papur hwn yn fan cychwyn er mwyn galluogi is-grŵp busnes a bioamrywiaeth PBC i ymgysylltu â ffrwd gwaith partneriaeth FfAN.

<u>Cyflwyniad</u>

Derbynnir yn gyffredinol bod y cyhoedd yn credu bod natur a bywyd gwyllt yn faterion pwysig (ffynhonnell: y BBC). Mae llawer o bobl yn aelodau o elusennau cadwraeth; mae gan y llywodraeth ar bob lefel bolisïau ac ymrwymiadau i wella bioamrywiaeth ac mae trefniadau wedi eu gwneud er mwyn gweithredu'r polisïau a'r ymrwymiadau hyn. Mae llawer o gwmnïau wedi gwneud gwaith arbennig o dda er mwyn lleihau a gwneud iawn am unrhyw effaith y maent yn ei gael ar fioamrywiaeth a'r dirwedd.

Ond er gwaetha'r gwaith hwn, rydym yn dal i ddinistrio ecosystemau, a hynny ar gyflymder dychrynllyd. Mae peidio â gweithredu'n arwain at nifer o ganlyniadau; yn un peth, mae'r lleihad mewn peillyddion gwyllt yn rhoi'n gallu i ddal i fwydo'n hunain yn y fantol. Rydym i gyd yn sylweddoli bod y rhain yn faterion pwysig, ond nid ydym wedi llwyddo i wneud digon hyd yn hyn i wrthdroi'r duedd. Gweithredu ym maes bioamrywiaeth yw Sinderela materion amgylcheddol o hyd, ac mae troi pryder amwys yn weithredu go iawn yn her aruthrol. Mae angen inni gael pobl eraill i ddeall bod gan fioamrywiaeth ei gwerth cynhenid, a'i bod hefyd yn sail i ddarparu ystod enfawr o wasanaethau ecosystem sydd o fudd i fusnesau ac i'r gymdeithas ehangach.

Mae aelodau PBC mewn sefyllfa arbennig o dda i gydweithio er mwyn chwarae ein rhan ni yn y broses o sicrhau'r newid angenrheidiol. Fodd bynnag, mae angen i'r gwaith o weithredu'r FfAN ystyried y cyd-destun rydym yn ceisio ymgysylltu â busnesau o'i fewn a rhoi sylw i rai o'r methiannau presennol.

**Y Methiant i Werthfawrogi Bioamrywiaeth**

Mae llawer o aelodau PBC yn gweithio gyda busnesau mewn ffyrdd amrywiol. Mae'r busnesau rydym yn rhyngweithio â hwy'n cynnwys rhai sydd eisoes yn gweithio'n ddiwyd er mwyn gwella bioamrywiaeth, a rhai nad ydynt yn gwneud hynny. Mae nifer o themâu cyffredin wedi dod i'r amlwg ac mae rhai ohonynt yn cael eu hamlinellu isod. Ni fwriadwyd i'r rhestr fod yn hollgynhwysfawr. Rhestr ddangosol yw hi, ac mae'r methiannau wedi'u rhestru er mwyn darparu fframwaith y gall y rhai hynny sy'n ymwneud â chyflawni'r FfAN ei ddefnyddio i ddechrau ymgysylltu â'r sector busnes.

Gellid dweud bod y methiant i werthfawrogi bioamrywiaeth mewn penderfyniadau busnes yn deillio o 3 methiant:

1. Methiant y Farchnad: Mae hyn yn digwydd pan nad yw penderfyniadau busnes yn adlewyrchu gwerth bioamrywiaeth, gan nad yw'n ychwanegu at incwm net y busnes.

2. Methiant o ran Gwybodaeth: Er enghraifft, lle byddai gwerth bioamrywiaeth yn gwneud gwahaniaeth i elw a/neu enw da'r busnes, ond nad yw'r wybodaeth gywir yn cyrraedd y bobl briodol yn y ffurf briodol i ddylanwadu ar benderfyniadau.

3. Methiant Rheoleiddwyr: Mae hyn yn digwydd pan fo'r ffordd y mae sefydliadau'r sector cyhoeddus wedi'u strwythuro, a'r ffordd y mae'r sefydliadau'n cyflawni eu gwaith, yn atal ymgysylltu priodol â busnesau.

**1. Methiant y Farchnad**

Buddsoddiad ariannol – Nid yw peidio â rheoli bioamrywiaeth yn arwain at gostau, oni bai fod camau o'r fath yn gysylltiedig â fframweithiau rheoleiddio, felly nid oes cymhelliant i wario arian i wella bioamrywiaeth ac eithrio am resymau dyngarol. Mae'r broblem hon i'w gweld ym myd amaeth lle mae cynhyrchu mwy o fwyd yn cael ei wobrwyo'n ariannol gan y farchnad, ond nid felly'r gwaith o ofalu am fioamrywiaeth, sy'n sail i'r gwaith hwn o gynhyrchu bwyd. Dyma lle mae angen cynlluniau amaeth-amgylcheddol, fel Glastir, er mwyn gwneud yn siŵr bod ffermwyr yn cael eu gwobrwyo am gynhyrchu gwasanaethau ecosystem sydd heb bris marchnad.

Brandio – Yn gyffredinol, diffyg hunaniaeth brand a gwerthoedd cysylltiedig ar gyfer y cysyniad o fioamrywiaeth. Mae hyn yn golygu mai gwerth isel iawn sydd i'r brand bioamrywiaeth, ac wrth gystadlu yn y farchnad yn erbyn brandiau cryfach, er enghraifft rheoli llygredd neu ymgysylltu â'r gymuned, gwelwn fod bioamrywiaeth yn tueddu i gael ei hanwybyddu ar draul brandiau amgylcheddol neu gymdeithasol sydd wedi sefydlu eu hunain yn well.

Gwerth i enw da'r cwmni – nid yw rheoli risg yn tueddu i ystyried risgiau bioamrywiaeth na marchnata gwerth negeseuon cadarnhaol am fioamrywiaeth. Tra bo'r rhai hynny ohonom sydd wedi bod yn gweithio ym

maes bioamrywiaeth ers tipyn o flynyddoedd yn deall gwerth rheoli bioamrywiaeth mae'r gwaith o gyfleu'r neges hon i gwmnïau wedi bod yn achlysurol ac wedi cael ei adael yn aml i ddarparwyr gwasanaeth unigol. Mae'r rhan fwyaf o waith datblygu cynnyrch yn dechrau ag angen canfyddedig ac mae timau gwerthu a marchnata'n dangos sut mae eu cynnyrch yn diwallu'r angen hwnnw. O ran bioamrywiaeth, nid yw'r angen canfyddedig yn amlwg, felly mae angen gweithio'n galed i lenwi'r bwlch hwnnw.

## 2. Methiant o ran Gwybodaeth

Darparwyr Gwasanaeth – Mae llawer o ddarparwyr nwyddau a gwasanaethau bioamrywiaeth yn y farchnad sy'n dod o'r sector preifat a'r trydydd sector. Mae ystod y cynnyrch yn amrywiol hefyd: efallai y bydd cwsmer yn prynu blwch adar er mwyn gwella bioamrywiaeth yn ei lety gwely a brecwast, neu efallai y bydd arno eisiau arolwg cynefin cam 1 ac arolygon rhywogaethau a warchodir ar gyfer ehangu chwarel gydag argymhellion lliniaru a chyfleoedd i wneud iawn am golli bioamrywiaeth. Yn ogystal â'r ystod ddryslyd o nwyddau a gwasanaethau sy'n cael eu cynnig, mae problemau eraill yn gysylltiedig â'r negeseuon rydym yn eu defnyddio i 'werthu' bioamrywiaeth. Mae llawer o nwyddau a gwasanaethau ecosystem yn dal heb gael eu cydnabod fel cynnyrch yn y farchnad o gwbl, er enghraifft rôl gwlyptiroedd ar gyfer rheoli ansawdd a llif dŵr.

Negeseuon cymysg – Mae llawer o gwmnïau heb fod yn gwybod at bwy i droi am wybodaeth a chyngor. Mae cynifer o ffynonellau, heb gysylltiadau clir, sy'n aml iawn yn rhoi negeseuon gwahanol ynglŷn â'r hyn y dylent ei wneud.

Cyfathrebu - Prin iawn yw'r cyfathrebu sydd wedi bod hyd yn hyn â busnesau ynglŷn â materion ehangach sy'n ymwneud ag ecosystemau a bioamrywiaeth, ac mae hynny o gyfathrebu sydd wedi cael ei wneud wedi bod yn achlysurol, heb ei gydgysylltu ac ar adegau'n ddryslyd neu'n wrthgyferbyniol. Nid yw'r rheoleiddwyr a'r ardystwyr yn rhoi'r neges i gwmnïau bod bioamrywiaeth yn rhywbeth y dylent fod yn rhoi sylw iddo. Mae ffynonellau sector cyhoeddus sy'n darparu gwybodaeth i fusnesau hefyd yn tueddu i beidio â sôn am fioamrywiaeth. Mae'r un peth yn wir am gymdeithasau masnach neu rwydweithiau busnes. Gall cyfathrebu negeseuon o'r tu mewn i sector yn aml fod yn fwy effeithiol na chyfathrebu allanol gan fod materion yn ymwneud ag ymddiriedaeth ac iaith gyffredin wedi cael eu datrys yn barod.

Cymeradwyo – Nid oes gan gwmnïau (sy'n tueddu i wrthod risg) ffordd o asesu cymhwyster neu werth gwasanaethau sy'n cael eu cynnig.

**3. Methiant Rheoleiddwyr**

Canfyddiadau – Mae ymdeimlad gweddol gyffredinol mewn busnesau nad ydynt yn cael eu cysylltu'n draddodiadol â'r amgylchedd naturiol bod bioamrywiaeth yn broblem i'w hosgoi os yn bosibl, ac maent yn ymdrin â hi o'u hanfodd. Mae'r pennawd yn adran fusnes papur newydd *The Leader* ar 12 Awst 2010, '*Newt colony fears wrecks Wrexham jobs hope*', yn enghraifft o hyn.

Iaith – Un o'r problemau sydd gan y sector bioamrywiaeth yw'r ffordd rydym yn cyfathrebu â busnesau. Rydym naill ai'n atgyfnerthu'r syniadau negyddol am fioamrywiaeth fel rhwystr sy'n atal gwaith datblygu, neu rydym yn defnyddio iaith wyddonol a thechnegol wrth siarad gyda phobl nad ydynt yn arbenigwyr, sy'n golygu bod ein neges hyd yn oed yn bellach o'u cyrraedd. Yn y gynhadledd gyntaf i drafod Busnes Byd-eang Bioamrywiaeth dywedodd pennaeth *Conservation International* ei fod wedi bod yn gweithio gyda busnesau ers 30 mlynedd ac nad oedd defnyddio'r gair bioamrywiaeth erioed wedi bod o fudd iddo. Dywedodd pennaeth yr astudiaeth i Economeg Ecosystemau a Bioamrywiaeth y byddai ef wedi hoffi gweld yr astudiaeth yn defnyddio'r gair natur yn hytrach na bioamrywiaeth.

Blaenoriaethau rheoleiddwyr – Nid yw o fudd i'r sefydliadau hynny sy'n ceisio cael cwmnïau i fynd i'r afael â bioamrywiaeth yn rhagweithiol os yw'r ymdrech honno'n golygu mwy o waith craffu gan y rheoleiddwyr sy'n canfod bod ganddynt amser i'w wastraffu.

Arloesedd/creadigrwydd – Mae cwmnïau sy'n ceisio datblygu cynnyrch, prosesau a thechnolegau a fyddai'n cael effaith fanteisiol ar fioamrywiaeth yn aml yn methu â chael adnoddau gan y llywodraeth i symud o'r cam prototeip i'r cam cynhyrchu.

**<u>Rôl i Fframwaith yr Amgylchedd Naturiol (FfAN)</u>**

Mae'r FfAN yn gyfle unigryw i ni fynd i'r afael â llawer o'r problemau a amlinellwyd uchod gan ei fod yn edrych yn eang ar reolaeth amgylcheddol. Mae canolbwyntio ar wasanaethau ecosystem yn bwysig iawn, gan mai'r rhain sy'n cysylltu pobl â lleoedd. Drwy'r rhain hefyd y gallwn ddechrau rhoi gwybod i fusnesau beth yw gwir werth bioamrywiaeth, o ran cysylltiadau cyhoeddus da, a hefyd sut y gall rheoli bioamrywiaeth arwain at fwy o elw.

**1. Mynd i'r Afael â Methiant y Farchnad**

Pe bai penderfyniadau yn ymwneud â grantiau'n ystyried i ba raddau y mae ymgeiswyr am grantiau a benthyciadau gan y llywodraeth yn rheoli risg i fioamrywiaeth, yna byddai hynny'n helpu i greu marchnad i wella bioamrywiaeth. Pe bai tendrau i gyflenwi nwyddau a chyflawni contractau'n cynnwys bioamrywiaeth yn yr un modd ag y maent yn cynnwys gofyniad i brynu coed o ffynonellau cyfreithlon a chynaliadwy, yna byddai hyn hefyd yn helpu i roi rheswm pam y dylai cyflenwyr y sector cyhoeddus wella bioamrywiaeth o ganlyniad i'w gweithgareddau.

**2. Mynd i'r Afael â Methiant o ran Gwybodaeth**
Mae PBC eisoes wedi dechrau ar y gwaith o ddarparu canolfan wybodaeth interim drwy ei gwefan er mwyn mynd i'r afael â'r rhwystrau sy'n wynebu darparwyr gwasanaethau. Byddai'n werth gweithio gyda ffrydiau gwaith Cymru Fyw a gweld a oes modd datblygu hyn ymhellach.

Mae aelodau unigol o PBC wedi sefydlu perthynas ers tro gyda chwmnïau drwy'r gwaith y maent wedi'i wneud gyda hwy, er enghraifft Ymddiriedolaeth Shared Earth, yr Ymddiriedolaethau Natur a Groundwork. Mae aelodau o'r Bartneriaeth sydd â llawer o dir yn eu meddiant, fel Dŵr Cymru a'r Comisiwn Coedwigaeth, hefyd wedi sefydlu perthynas ers tro gyda'r cwmnïau y maent yn rhyngweithio â hwy, ac sy'n ffinio ar eu tiroedd. Mae sector arall o'r Bartneriaeth, y rheoleiddwyr, hefyd yn gweithio gyda miloedd o gwmnïau yng Nghymru. Drwy weithio gyda'i gilydd, gallant roi gwybod am y Fframwaith i'r rhai hynny rydym eisoes yn gweithio gyda hwy, a bydd y dulliau gweithredu sy'n cael eu hamlinellu yn y Fframwaith o fudd i bob un ohonom.

**3. Mynd i'r Afael â Methiant Rheoleiddwyr**
Fe allai'r Fframwaith sicrhau bod bioamrywiaeth yn cael lle blaenllaw pan fo penderfyniadau'n cael eu gwneud yn y sector cyhoeddus. Gall PBC chwarae rhan allweddol yn y gwaith o ddod â staff o nifer o wahanol asiantaethau ac o sefydliadau'r trydydd sector at ei gilydd i grynhoi gwybodaeth a dealltwriaeth o flaenoriaethau a dulliau gweithredu.

Mae angen i'r Fframwaith geisio ymgysylltu â'r sectorau a'r sefydliadau hynny sy'n cyfathrebu â busnesau er mwyn sicrhau nad yw negeseuon a gwybodaeth sy'n cael ei chyfathrebu yn syrthio i'r un fagl o ran iaith a chanfyddiadau ag y maent wedi gwneud yn y gorffennol.

'*Before conservationists can truly convince others they perhaps need to come more fully to terms with the idea of nature conservation as a wholly integrated, not segregated, activity with biodiversity as an emergent property rather than as the focus for action.*'[1]

Mae angen i'r FfAN weithio gyda rheoleiddwyr er mwyn sicrhau nad yw cwmnïau sy'n defnyddio dulliau rhagweithiol er mwyn ceisio mynd i'r afael â materion cyn iddynt gael eu codi gan adolygiad yn cael eu cosbi o hyn ymlaen drwy ragor o waith craffu. Dylai dalu i gwmnïau ofyn am gyngor gan reoleiddwyr yn gynnar, tra mae mwy o hyblygrwydd i fynd i'r afael â phroblemau sy'n ymwneud â'r gost leiaf. Mae gwaith ymchwil gan y Cyngor Cefn Gwlad yn dangos bod busnesau'n ofni mai'r unig beth fydd yn digwydd os bydd rheoleiddwyr yn cael eu rhybuddio'n gynnar ynglŷn â chynlluniau yw y bydd mwy o amser i ddod o hyd i broblemau. Roedd y busnesau a gymerodd ran yn yr arolwg yn galw am fwy o bartneriaeth gyda rheoleiddwyr.[2]

Yn olaf, mae'r FfAN yn rhoi cyfle i ni wobrwyo arloesedd a chreadigrwydd drwy sicrhau bod parch at yr amgylchedd naturiol gan fusnesau yn un o'r elfennau mewn gwobrau busnes sy'n cael eu noddi gan y llywodraeth, ac

---

[1] Richard Smithers, Landscape Character Network News, Hydref 2010
[2] Improving our liaison with business, CCGC ERM 2006

mewn rhaglenni hyfforddiant, cefnogaeth a chyngor. Gall y FfAN helpu i gysylltu polisi â mynediad at gyllid ar gyfer ymchwil a datblygu, sy'n dod o Whitehall yn bennaf ar hyn o bryd, ac sy'n cael ei bennu dan feini prawf gwahanol.

***Cynllun/Cynigion***

Ceisio ymgysylltu â ffrwd gwaith Cymru Fyw y FfAN. Cynnwys y papur hwn yn eu prosesau a cheisio gweithio gyda'i gilydd er mwyn cael busnesau i ymwneud mwy â'r amgylchedd naturiol.

***Y Camau Gofynnol***

- Gofyn: Mae croeso cynnes i aelodau o PBC nad ydynt wedi ymrwymo'n barod i fynychu'r cyfarfod ar 17 Tachwedd gyda FfAN ac sydd â diddordeb mewn ymgysylltu â'r sector preifat. Gallwch gysylltu ag ysgrifenyddiaeth y Bartneriaeth.
- Hysbysu: grŵp llywio PBC y bydd y papur hwn yn cael ei fwydo i mewn i ffrwd gwaith partneriaeth Cymru Fyw y FfAN.

**GRŴP LLYWIO PARTNERIAETH BIOAMRYWIAETH CYMRU 12**
**PAPUR I'W NODI F**
**11th Tachwedd 2010**

**Teitl: Natur Cymru**

**Lluniwyd gan: James Robertson, Golygydd**

***Cefndir***

**GRŴP LLYWIO PARTNERIAETH BIOAMRYWIAETH CYMRU 9, PAPUR 6**
**12 Tachwedd 2009, Wrecsam**
**http://www.biodiversitywales.org.uk/content/uploads/documents/SG%20Meetings/SG9/Paper%2006%20WBPSG9%20Natur%20Cymru.pdff**

Mae Natur Cymru (NC) yn awyddus i sicrhau ei ddyfodol hirdymor, ac ychwanegu gwerth at y gwasanaeth sy'n cael ei ddarparu gan y cylchgrawn, drwy ddatblygu cysylltiad â phrosiectau Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru. Pwrpas y papur hwn yw tynnu sylw at y cynnydd sydd wedi'i wneud yn ddiweddar.

***Cynnydd***

Fel rhan o'i rôl ddatblygol, mae *Natur Cymru* wedi cytuno i ddarparu mwy o gefnogaeth i'r gwaith o gofnodi data. Mae'r wybodaeth sylfaenol sy'n sail i benderfyniadau a pholisïau yn deillio o waith sydd wedi cael ei wneud i lunio cofnodion cywir o rywogaethau neu gynefinoedd. Mae hon yn dasg enfawr ac, yn aml iawn, mae'n dibynnu ar lawer o gymorth gan wirfoddolwyr. Bydd *Natur Cymru* yn cynhyrchu gwybodaeth yn rheolaidd i helpu i ddarparu gwybodaeth am gofnodi i bobl ac i'w hysbrydoli. Gallai hyn fod ar ffurf erthygl yn y cylchgrawn (heb unrhyw gost ychwanegol) y gellid ei hategu ag ymgyrch ehangach, fwy cyhoeddus, yn cynnwys taflen a chanllaw adnabod, yn defnyddio dulliau cyhoeddi papur ac electronig. Mae *Natur Cymru* hefyd wedi darparu rhestr o awgrymiadau er mwyn gwella trefniadau marchnata'r canolfannau cofnodi.

Mae *Natur Cymru* hefyd yn barod i helpu i lunio adroddiadau arbennig ar ran y Bartneriaeth. Mae tîm *Natur Cymru* mewn sefyllfa dda i allu helpu'r Bartneriaeth i drosglwyddo storïau a negeseuon pwysig. Ambell waith bydd y rhain yn ffitio'n dwt i mewn i erthygl yn y cylchgrawn (heb unrhyw gost ychwanegol) ond dro arall byddai'n well pe baent yn cael eu cynhyrchu fel adroddiad neu ohebiaeth annibynnol. Gellid comisiynu *Natur Cymru* i lunio adroddiadau'r Bartneriaeth, megis cynnydd y Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth, neu i helpu â gwaith cynhyrchu neu ddarllen proflenni.

Mae *Natur Cymru* hefyd wedi darparu lle i gyhoeddi deunydd sy'n cael ei gyflenwi gan aelodau'r Bartneriaeth, fel yr Amgueddfa Genedlaethol, Asiantaeth yr Amgylchedd a'r Comisiwn Coedwigaeth.

**Y Camau Gofynnol**

Cadarnhau y gallwn barhau fel y nodir uchod DO/NADDO

**GRŴP LLYWIO PARTNERIAETH BIOAMRYWIAETH CYMRU 12**
**PAPUR I'W NODI G**
**11th Tachwedd 2010**

**Teitl: Creu coetir newydd yng Nghymru**


**Lluniwyd gan: Michelle van-Velzen, Tîm Polisi a Rhaglenni, Comisiwn Coedwigaeth Cymru**

## Cefndir/Cynnydd

Ar 16 Mawrth, cyhoeddodd y Gweinidog dros Faterion Gwledig, Elin Jones, raglen blannu coed newydd ac uchelgeisiol fel rhan o elfen wedi'i thargedu'r cynllun Glastir, gyda'r bwriad o ychwanegu 100,000 o hectarau at arwynebedd coetir Cymru yn ystod yr 20 mlynedd nesaf. Y dystiolaeth wyddonol a ddefnyddiwyd fel sail i'r penderfyniad hwn yw adroddiad a gyhoeddwyd ym Mawrth 2010 gan y Grŵp Defnydd Tir a Newid Hinsawdd. Bydd y targed newydd ar gyfer creu coetir newydd yn galluogi perchnogion tir i ymateb yn gadarnhaol i her newid hinsawdd drwy gyfrannu coed a choetir er mwyn lleihau carbon yn gyffredinol (yn enwedig y carbon hwnnw sydd wedi cael ei gloi mewn cynnyrch coed, y gellir eu defnyddio yn lle dur, concrid, alwminiwm ac ati).

## *Cynllun/Cynigion*

Mae grant creu coetir newydd ar gael yn awr drwy Gomisiwn Coedwigaeth Cymru, ac mae ar gael i bob tirfeddiannwr yng Nghymru sydd â mwy na 0.25 hectar o dir sydd wedi'i ddynodi gan y Comisiwn Coedwigaeth a chyrff cadwraethol yng Nghymru fel tir sy'n addas i blannu coed o'r newydd. Mae'r cynllun newydd yn cael ei bwysoli yn nhermau cyfradd y grant tuag at goetir brodorol a choetir cymysg, ac mae throthwyau a rheolau'n cael eu pennu ar lefel cynllun ar gyfer maint, cyfansoddiad rhywogaethau, tarddiad, llwyni prennaidd a dwysedd stocio.




Gwyrdd – 692,659ha

plannu'n dderbyniol, gan gynnwys plannu â chanllawiau arbennig ar gyfer gwiwerod coc llygod y dŵr, tir comin ac ardaloedd mynedi agored

Glas – 302,524ha

coetir presennol

Oren – 525,421ha

plannu ar ôl ymgynghori

Coch – 593,895ha

dim plannu

Mae'r map strategol hwn, y gellir ei weld drwy weledydd cyhoeddus ar wefan y Comisiwn Coedwigaeth, wedi'i ddatblygu ar gyfer dau brif ddiben:

a) dangos i dirfeddianwyr ym mhle y mae creu coetir yn debygol o fod yn dderbyniol; a,
b) lleihau nifer yr ymgyngoriadau ffurfiol, i'r graddau y mae hynny'n bosibl, drwy ganolbwyntio ar fireinio unrhyw gynigion mewn ardaloedd 'ymgynghori' oren.

Ceir crynodeb isod o'r fethodoleg sy'n cael ei defnyddio:

- Ardal 'plannu' (gwyrdd) – Dosbarthiad Tir Amaethyddol (1, 2, 3, 4, 5, ardaloedd anamaethyddol, ardaloedd trefol) namyn coch, oren a glas
- Ardal 'plannu ar ôl ymgynghori' (oren) – llain ragod 500m Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig ar dir uchel, SoDdGA â llain ragod 300m, 'ardaloedd' SoDdGA, Parciau Cenedlaethol, AHNE, Pridd categori 2 (CCGC), Ardaloedd Rhedyn â Britheg, Tirweddau Hanesyddol, Parciau a Gerddi Hanesyddol, Safleoedd Treftadaeth y Byd, data Ymddiriedolaethau Archeolegol
- Ardal 'dim plannu' (coch) – Mawn dwfn, Cam 1 ar fawn dwfn, Safleoedd Daearegol Pwysig Rhanbarthol, Henebion Cofrestredig, Map 'Rhywogaethau Cyfunol', Cynefinoedd Blaenoriaeth 2 Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth (heb goetir), Categori pridd 1 (CCGC), gwybodaeth ychwanegol am rywogaethau sy'n cael ei darparu drwy Glastir (e.e. y frân goesgoch, y cwtiad aur), Ffyngau Glaswelltir, data Ymddiriedolaethau Archeolegol (e.e. nodweddion tirwedd heb goed), coetir presennol a llynnoedd blaenoriaeth uchel, fel y maent yn cael eu diffinio dan Gynlluniau Rheoli Basnau Afonydd.

Bydd rhagor o waith mireinio'n cael ei wneud ar lefel strategol gydag ymgyngoreion amrywiol er mwyn gwella rhai setiau data megis cam 1, gwybodaeth am bridd a dehongli pridd, nodweddion tirwedd heb goed a

lleiniau rhagod o amgylch ardaloedd gwarchodedig lle gallai coetir brodorol neu gymysg newydd wneud cyfraniad sylweddol.

Ar lefel cynllun, fel yn achos unrhyw waith ailblannu neu greu coetir newydd, bydd angen i bob un gydymffurfio â Safon Goedwigaeth y Deyrnas Unedig a'r wyth canllaw sy'n gysylltiedig â'r safon. Mae'r Safon Goedwigaeth a'r Canllawiau'n cael eu hadolygu ar hyn o bryd a dylent gael eu cyhoeddi tua diwedd y flwyddyn. Mae'r Comisiwn Coedwigaeth yn treialu Cod Carbon Coetiroedd sy'n nodi gofynion pendant ar gyfer prosiectau dal a storio carbon gwirfoddol sy'n cynnwys egwyddorion creiddiol dulliau da o reoli carbon fel rhan o'r broses o reoli coedwigoedd drwy ddulliau cynaliadwy modern.

**Ceir rhagor o wybodaeth ar y tudalennau gwe hyn:**

- **'Forests and climate change'**, Comisiwn Coedwigaeth Prydain http://www.forestry.gov.uk/forestry/infd-7m8f59 gan gynnwys dolen gyswllt i lwytho Adroddiad Read i lawr
- **'Woodland carbon code'**, Comisiwn Coedwigaeth Prydain http://www.forestry.gov.uk/forestry/infd-84hl57
- **'Coetiroedd i Gymru – Strategaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer Coetiroedd a Choed'**, Mawrth 2009 http://www.forestry.gov.uk/forestry/INFD-7GDE8V
- **'Grantiau a Rheoliadau'**, Comisiwn Coedwigaeth Cymru. Am wybodaeth fanylach am y cynllun grant coetir newydd a'r trefniadau pontio - http://www.forestry.gov.uk/forestry/INFD-5ZZNUB
- **'Adapting woodlands in Wales to a future climate'** Forest Research http://www.forestry.gov.uk/fr/INFD-7FXBYQ

**Y Camau Gofynnol**

- Gofyn i holl aelodau PBC nodi'r pwyntiau uchod.

**GRŴP LLYWIO PARTNERIAETH BIOAMRYWIAETH CYMRU 12**
**PAPUR I'W NODI H**
**11 Tachwedd 2010**

**Teitl: Sicrhau'r ystyriaeth ddyledus i gynefinoedd a rhywogaethau sydd ar restr adran 42 yn y broses rheoli datblygu**

**Lluniwyd gan: Hazel Drewett, Cyngor Cefn Gwlad Cymru**

### *Cefndir/Cynnydd*

Trafodwyd papur ar y pwnc uchod (papur 5) yn wythfed cyfarfod y Grŵp Llywio ar 8 Gorffennaf 2009. Roedd y papur yn pwysleisio bod angen sicrhau bod ymatebion CCGC i ymgyngoriadau gan awdurdodau cynllunio lleol yn cefnogi ymatebion ecolegwyr awdurdodau lleol ac ymatebion cyrff eraill yng nghyswllt rhestr adran 42. Y penderfyniad a wnaethpwyd yn y cyfarfod hwnnw oedd y byddai CCGC yn cynnwys paragraff safonol ynglŷn â rhestr adran 42 ym mhob ymateb i ymgynghoriad cynllunio.

### *Cynllun/Cynigion*

Mae CCGC yn atgoffa awdurdodau cynllunio a rheoleiddwyr eraill ynglŷn â rhestr adran 42 drwy gyswllt cyffredinol. Rydym hefyd yn ailddatgan y pwynt mewn llythyrau ymateb pan fyddwn yn ystyried bod perygl y bydd pwyntiau sydd o ddiddordeb yn lleol yn cael eu diystyru. Mae llythyr 'dim sylw' presennol CCGC yn cynnwys y dewis i ddweud:

'Sylwer nad ydym wedi ystyried effeithiau posibl ar yr holl fuddiannau lleol neu ranbarthol. Felly, er nad ydym yn dymuno gwneud sylwadau ynglŷn â'r achos hwn, ni ddylech anwybyddu'r posibilrwydd y gallai gael effaith andwyol ar fuddiannau o'r fath, a fyddai'n berthnasol i ddyletswydd gyffredinol eich Awdurdod i ystyried diogelu bioamrywiaeth, sy'n cael ei nodi yn adran 40 o Ddeddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig (NERC) (2006).'

Rydym wedi penderfynu cryfhau'r paragraff presennol, a fydd yn cael ei ddefnyddio yn ein hymatebion, drwy wneud cyfeiriadau mwy penodol at ddeddfwriaeth a rhoi arweiniad i'r awdurdod cynllunio ynglŷn â sut y gall gyflawni ei ddyletswyddau. Bydd y paragraff newydd yn darllen fel a ganlyn:

'Nid ydym wedi ystyried effeithiau posibl ar yr holl rywogaethau a chynefinoedd sy'n cael eu rhestru yn adran 42 o Ddeddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig (NERC) 2006, nac ar y Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol a buddiannau lleol eraill. Er mwyn cydymffurfio â dyletswydd eich Awdurdod dan adran 40 o Ddeddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig, i ystyried diogelu bioamrywiaeth, dylai eich penderfyniad ystyried effeithiau andwyol posibl ar fuddiannau o'r fath. Rydym yn argymell eich bod yn gofyn am ragor o gyngor gan ecolegydd eich Awdurdod a/neu sefydliadau gwarchod natur fel yr Ymddiriedolaeth Natur leol,

yr RSPB, ac ati. Mae gwefan Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru'n cynnwys canllawiau ar gyfer asesu cynigion cynllunio sydd â goblygiadau i gynefinoedd a rhywogaethau adran 42 yn: http://www.biodiversitywales.org.uk/content/uploads/documents/Guidance%20Legislation/Sec%2042%20planning%20guidance%20Feb%202009.pdf.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n monitro sut y mae'r ddyletswydd hon a roddwyd ar gyrff cyhoeddus gan Ddeddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig yn cael ei gweithredu.'

***Camau Gofynnol***

- Cadarnhau y gallwn symud yn ein blaenau yn unol â'r awgrym uchod.
DO/NADDO

**GRŴP LLYWIO PARTNERIAETH BIOAMRYWIAETH CYMRU 12**
**PAPUR I'W NODI I**
**11 Tachwedd 2010**

## Teitl: Cynrychiolaeth Academaidd ar Grwpiau Ecosystemau / Arbenigwyr Rhywogaethau Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru

## Lluniwyd gan: Tîm Cymorth Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru

### *Cefndir/Cynnydd*

Mae'r rhan fwyaf o aelodau Grwpiau Ecosystemau / Arbenigwyr Rhywogaethau Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru (PBC) yn cynrychioli cyrff amgylcheddol statudol a chyrff anllywodraethol o faes cadwraeth. Prin yw'r gynrychiolaeth o'r gymuned ymchwil ar hyn o bryd. Byddai gwell cysylltiadau ag ymchwil academaidd gyfredol o fudd mawr i broses y Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth gan y byddai modd cael gwybodaeth gyfredol am gyngor rheoli, awtecoleg, dulliau o gynnal arolygon, ymatebion i newid yn yr hinsawdd ac ati. Gofynnwyd hefyd i'r grwpiau hysbysu Llywodraeth Cynulliad Cymru ynglŷn ag anghenion ymchwil a blaenoriaethau y gellir eu bwydo drwodd i DEFRA, a gallai'r academyddion fod o gymorth mawr i'r perwyl hwn hefyd.

### *Cynllun/Cynigion*

Mae Canolfan Cymru ar gyfer Ymchwil i'r Amgylchedd yn gweithredu ar ran Llywodraeth Cynulliad Cymru ac mae ei hasiantaethau'n helpu i gydgysylltu ymchwil i gefnogi Strategaeth Amgylcheddol Cymru. Mae'r Ganolfan, dan arweiniad Dr Shaun Russell, yn cynorthwyo'r Llywodraeth i nodi darpar gyfranogwyr ar gyfer gwaith PBC.

O ganlyniad, gwahoddwyd nifer o academyddion neu aelodau priodol o'u grwpiau ymchwil (e.e. rhai sydd wedi cwblhau doethuriaeth) i gyfrannu i un o'r grwpiau isod:

1. Grŵp Ecosystemau Coetir
2. Grŵp Ecosystemau Dŵr Croyw
3. Grŵp Ecosystemau Glaswelltir a Rhostir yr Iseldir
4. Grŵp Ecosystemau Ffermdir Caeedig
5. Grŵp Ecosystemau Gwlyptiroedd
6. Grŵp Ecosystemau Arfordirol
7. Grŵp Ecosystemau Morol
8. Grŵp Ecosystemau'r Ucheldir
9. Grŵp Ecosystemau Trefol a Thir Llwyd
10. Grŵp Arbenigwyr Rhywogaethau

Mae Swyddog Technegol PBC wedi bod yn coladu ymatebion i'r gwahoddiad hwn ac mae'r ymateb wedi bod yn gadarnhaol iawn hyd yn hyn. Ar hyn o bryd mae 24 o academyddion wedi cynnig helpu, gan gynnig cyfrannu'n uniongyrchol neu drwy ohebiaeth. Ar hyn o bryd y Grŵp Ecosystemau Ffermdir Caeedig yw'r unig grŵp sydd heb gynrychiolaeth academaidd.

Bwriedir cysylltu ag unigolion yn uniongyrchol yn ystod yr wythnosau nesaf, i drafod y posibilrwydd o gymryd rhan yn fanylach. Yn dilyn hynny rhoddir y manylion cysylltu i Gadeiryddion y grwpiau perthnasol.

### *Y Camau Gofynnol*

- Cadarnhau y gallwn barhau fel y nodir uchod DO /NADDO

**DRAFFT: Cylch Gorchwyl Grwpiau Ecosystemau: DRAFFT**

Mae pob un o grwpiau ecosystemau Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru (PBC) yn canolbwyntio ar ystod o ecosystemau cysylltiedig. Mae pob grŵp arbenigwyr yn gweithio ar ei swyddogaeth arbenigol ei hun (e.e. rhywogaethau estron goresgynnol neu rannu gwybodaeth ac ati). Mae gan bob grŵp y cyfrifoldebau a ganlyn yng nghyd-destun eu meysydd penodol:

- Gweithio gydag eraill yng Nghymru i ddatblygu a gweithredu'r dull ecosystemau, fel y mae wedi'i nodi yn Fframwaith PBC a 'Cymru Fyw', gan ystyried iechyd, gwytnwch a gwasanaethau ecosystemau.

- Gweithio gyda rhanddeiliaid, gan gynnwys Partneriaethau Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol, Canolfannau Cofnodion Lleol ac eraill ar brosiectau ymarferol sydd o fudd i ecosystemau.

- Gweithio'n uniongyrchol â swyddogion priodol yn Llywodraeth Cynulliad Cymru er mwyn sicrhau canlyniadau i ecosystemau a lleihau rhwystrau polisi sy'n atal gwella a diogelu ecosystemau yn holl feysydd polisi a darparu Llywodraeth Cynulliad Cymru.

- Sicrhau, drwy aelodau academaidd a thrwy gysylltiadau â ffrwd waith Tystiolaeth 'Cymru Fyw', bod gwaith monitro, goruchwylio ac adrodd priodol yn cael ei wneud. Nodi bylchau mewn gwybodaeth, a naill ai roi sylw i'r bylchau hyn yn uniongyrchol neu argymell sut y gellid eu llenwi.

- Sicrhau, drwy gysylltiadau â ffrwd waith Tystiolaeth 'Cymru Fyw' a swyddogion Llywodraeth Cynulliad Cymru, bod defnydd cadarnhaol yn cael ei wneud o dystiolaeth wyddonol mewn polisi, wrth ddarparu ac wrth weithredu.

- Rhoi gwybod am gamau gweithredu ac annog eraill i roi gwybod am gamau gweithredu yn brydlon ar y System Adrodd ar Weithredu Bioamrywiaeth (BARS) a'r Gronfa Ddata Safleoedd Arbennig (Canlyniad 21 Strategaeth Amgylcheddol Cymru).

- Ym mhob un o'r uchod, sicrhau cynifer ag sy'n bosibl o ganlyniadau cadarnhaol i Gynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth, rhywogaethau Adran 42 Deddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig a nodweddion Canlyniad 21 Strategaeth Amgylcheddol Cymru.

- Gweithio gyda'i gilydd a chyda rheolwyr cyllid Comisiwn Coedwigaeth Cymru, Cyngor Cefn Gwlad Cymru ac Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru er mwyn cydgysylltu ceisiadau am ymchwil a/neu gamau gweithredu.

- Gweithio gyda ffrwd waith Tystiolaeth ‘Cymru Fyw’ i gynnig cyngor am reoli ecosystemau i reolwyr tir a phobl sy’n defnyddio’r môr.

- Cydgysylltu adroddiadau am statws a thueddiadau ar gyfer cynefinoedd a rhywogaethau cysylltiedig.